

BA (Anrh) Rheoli Llwyfan a Theatr Dechnegol

Ceisiadau Drwy: UCAS

Cod Sefydliad: R86

Cod Cwrs: W450

Mae'r trosolwg hwn o'r cwrs yn rhoi crynodeb o'r rhaglen BA (Anrh) Rheoli Llwyfan a Theatr Dechnegol fel y'i cynigir o fis Medi 2022. A fyddech cystal â nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir ar hyn o bryd, gall gael ei haddasu a'i newid mewn blynyddoedd i ddod. Ymgynghorir bob amser â myfyrwyr ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Mae pob blwyddyn o'r cwrs yn werth 120 credyd. Er mwyn symud drwy bob blwyddyn bydd yn rhaid i'r myfyrwyr *fel arfer* lwyddo ym mhob modiwl.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Sgiliau 1 Credydau: 20	Sgiliau 2 Credydau: 20	Astudiaethau Cynhyrchu Credydau: 10
Ymchwil a Chyfathrebu 1 Credydau: 20	Ymchwil a Chyfathrebu 2 Credydau: 20	Cyfathrebu Proffesiynol Credydau: 10
Lleoliadau Cynhyrchu A Credydau: 80	Lleoliadau Cynhyrchu B Credydau: 40	Ymchwil Uwch Credydau: 20
	Lleoliadau Cynhyrchu C Credydau: 40	Lleoliadau Cynhyrchu D Credydau: 40
		Lleoliadau Cynhyrchu E Credydau: 40

Blwyddyn 1

Modiwl Sgiliau

Credydau: 20

Asesiad: 2 x Asesiad Ymarferol/Cyflwyniad (Llwyddo/Methu)

Cyfes o arddangosiadau ymarferol, gweithdai a phrosiectau a gynhelir ar brif Gampws ac yn Stiwdio Llanisien CBCDC yn cyflwyno'r myfyriwr i waith aelodau'r timau Rheoli Llwyfan a Thechnegol. Bydd y modiwl yn astudio Rheoli Llwyfan sylfaenol, Crefft Llwyfan sylfaenol a sgiliau technegol gan gynnwys technegau adeiladu, systemau goleuo, sain a fideo a ddefnyddir yn y diwydiant a chyflwyno'r materion Iechyd a Diogelwch perthnasol.

Ymchwil a Chyfathrebu 1

Credydau: 20

Asesiad: Cyflwyniad (Llwyddo/Methu), Asesiad Ysgrifenedig (Llwyddo/Methu)

Cyfes o ddsbarthiadau, seminarau, ymweliadau theatr ac ymarferion grŵp sydd wedi'u bwriadu i ddatblygu sgiliau ymchwil a chyflwyno y myfyriwr drwy astudio grwpiau theatr a dadansoddi sgriptiau a chymeriadau theatr.

Lleoliadau Cynhyrchu A

Credydau: 80

Asesiad: Asesiad Ymarferol ar y Prosiect BA1 (Asesiad Ffurfiannol), Cynhyrchiad 1 (50%), Cynhyrchiad 2 (50%)

Bydd y myfyriwr yn ymgymryd â phrosiect cynhyrchu (Prosiect BA1) yn nhymor yr hydref a dau leoliad cynhyrchu, un yn nhymor y gwanwyn a llall yn nhymor yr haf. Bydd yn gweithio gyda thîm o fyfyrwyr a staff creadigol a thechnegol, gan fynychu rihyrsals a chyfarfodydd yn ôl y galw cyn wythnos y cynhyrchiad a chyfnod y perfformiadau. Bydd y myfyriwr yn datblygu ymhellach ei wybodaeth am lechyd a Diogelwch.

Ar ddechrau pob cyfnod lleoliad bydd y myfyriwr yn llunio Cynnig Amcanion Personol (POP) i fyfyrion ar waith neu brofiad blaenorol a gosod nodau newydd. Wedi cwblhau'r rôl, bydd y myfyriwr yn cynnal Hunanasesiad i werthuso ei berfformiad/pherfformiad gan gyfeirio at y POP.

Blwyddyn 2

Sgiliau 2

Credydau: 20

Asesiad: Asesiad Ymarferol/Cyflwyniad (50%) Cyflwyniad (50%)

Cyfes o ddsbarthiadau, seminarau a gweithdai a gynhelir yn yr ystafelloedd dosbarth, stiwdios a theatrau yn canolbwyntio ar y gwaith cynllunio ariannol ac amserlennu ar gyfer cynhyrchiad a chynllunio ar gyfer taith ryngwladol. Ceir gwybodaeth ddatblygedig ym meysydd Goleuo, Sain, Fideo a phrosesau lechyd a Diogelwch.

Ymchwil a Chyfathrebu 2

Credydau: 20

Asesiad: Cyflwyniad (50%), Traethawd (50%)

Cyfes o ddsbarthiadau a seminarau, ymweliadau theatr ac ymarferion ymarferol sydd wedi'u bwriadu i ddatblygu sgiliau astudio, ymchwil, ysgrifennu a chyflwyno y myfyriwr.

Lleoliadau Cynhyrchu B

Credydau: 40

Asesiad: Cynhyrchiad 3 (50%, Opsiwn A neu 100%, Opsiwn B), Cynhyrchiad 4 (50%, Opsiwn A neu 100%, Opsiwn B)

Mae'r myfyriwr yn ymgymryd â rôl mewn tîm sy'n cynhyrchu perfformiad cyhoeddus. Bydd y dyletswyddau'n golygu gweithio gydag amrywiaeth o staff artistig, rheoli a thechnegol, y gallai rhai ohonynt fod yn weithwyr proffesiynol. Bydd y myfyriwr yn mynychu rihyrsals, cyfarfodydd a grwpiau trafod yn ôl y galw cyn cyfnod y cynhyrchiad yn y theatr ac yn ystod amserlen y perfformiadau wedi hynny.

Ar ddechrau pob cyfnod lleoliad bydd y myfyriwr yn llunio Cynnig Amcanion Personol (POP) i fyfyrion ar waith neu brofiad blaenorol a gosod nodau newydd. Wedi cwblhau'r rôl, bydd y myfyriwr yn cynnal Hunanasesiad i werthuso ei berfformiad/pherfformiad gan gyfeirio at y POP.

Opsiwn A

Lleoliad Cynhyrchu 3	50%
Lleoliad Cynhyrchu 4	50%
Cyfanswm	100%

Opsiwn B

Lleoliad Cynhyrchu 3	100%
Lleoliad Gwaith/Prosiect Annibynnol	(Llwyddo/Methu)
Cyfanswm	100%

Lleoliadau Cynhyrchu C

Credydau: 40

Assessment: Cynhyrchiad 5 (50%, Opsiwn A neu 100%, Opsiwn B), Cynhyrchiad 6 (50%, Opsiwn A neu 100%, Opsiwn B)

Mae'r myfyriwr yn ymgymryd â rôl mewn tîm sy'n cynhyrchu perfformiad cyhoeddus. Mae'r ddau fodiwl hyn yn cynnwys pedwar cynhyrchiad. Gellir amnewid dau o'r cynyrchiadau (gyda chytundeb aelodau staff craidd) am leoliadau gwaith. Bydd y dyletswyddau'n golygu gweithio gydag amrywiaeth o staff artistig, rheoli a thechnegol, y gallai rhai ohonynt fod yn weithwyr proffesiynol. Bydd y myfyriwr yn mynychu rihyrsals, cyfarfodydd a grwpiau trafod yn ôl y galw cyn cyfnod y cynhyrchiad yn y theatr ac yn ystod amserlen y perfformiadau wedi hynny.

Ar ddechrau pob cyfnod lleoliad bydd y myfyriwr yn llunio Cynnig Amcanion Personol (POP) i fyfyrion ar waith neu brofiad blaenorol a gosod nodau newydd. Wedi cwblhau'r rôl, bydd y myfyriwr yn cynnal Hunanasesiad i werthuso ei berfformiad/perfformiad gan gyfeirio at y POP.

Opsiwn A

Lleoliad Cynhyrchu 5	50%
Lleoliad Cynhyrchu 6	50%
Cyfanswm	100%

Opsiwn B

Lleoliad Cynhyrchu 5	100%
Lleoliad Gwaith/Prosiect Annibynnol	(Llwyddo/Methu)
Cyfanswm	100%

Blwyddyn 3

Astudiaethau Cynhyrchu

Credydau: 10

Asesiad: Asesiad Ymarferol/Cyflwyniad (50%), Cyflwyniad (50%)

Cyfes o ddsbarthiadau, seminarau a phrosiectau i ddatblygu sgiliau technegol, cynllunio goleuo a sain a chynhyrchu y myfyriwr.

Cyfathrebu Proffesiynol

Credydau: 10

Asesiad: Gwaith Cwrs (Llwyddo/Methu), Traethawd (50%)

Cyfes o ddsbarthiadau, seminarau a gweithdai sy'n datblygu dealltwriaeth y myfyriwr o'r diwydiant y mae'n bwriadu mynd iddo. Yn benodol, bydd y modiwl yn canolbwyntio ar bedwar prif faes; Ymarferwyr Arloesol, Pensaerniaeth Theatr, Sefydliadau'r Diwydiant a Datblygu Gyrfa.

Ymchwil Uwch

Credydau: 20

Asesiad: Traethawd Estynedig (100%) neu Gyflwyniad (100%)

Astudiaeth a hunangynhyrchir o bwnc sydd o fewn cwmpas y cwrs fel y cytunir gydag Arweinydd y Modiwl. Dylai'r astudiaeth hon gynrychioli'r darn mwyaf sylweddol o ymchwil a wneir gan y myfyriwr ar y cwrs. Bydd cefnogaeth diwtorial reolaidd yn monitro cynnydd a rhoi arweiniad yn ôl yr angen.

Lleoliadau Cynhyrchu D

Credydau: 40

Asesiad: Cynhyrchiad 7 (50%, Opsiwn A neu 100%, Opsiwn B), Cynhyrchiad 8 (50%, Opsiwn A neu 100%, Opsiwn B)

Mae'r myfyriwr yn ymgymryd â rôl flaenllaw mewn tîm sy'n cynhyrchu perfformiad cyhoeddus. Bydd y dyletswyddau'n golygu gweithio gydag amrywiaeth o staff artistig, rheoli a thechnegol, y bydd rhai ohonynt yn weithwyr proffesiynol yn y diwydiant. Bydd y myfyriwr yn mynychu rihyrsals, cyfarfodydd a grwpiau trafod yn ôl y galw cyn cyfnod y cynhyrchiad yn y theatr ac yn ystod amserlen y perfformiadau wedi hynny.

Ar ddechrau pob cyfnod lleoliad bydd y myfyriwr yn llunio Cynnig Amcanion Personol (POP) i fyfyrion ar waith neu brofiad blaenorol a gosod nodau newydd. Wedi cwblhau'r rôl, bydd y myfyriwr yn cynnal Hunanasesiad i werthuso ei berfformiad/pherfformiad gan gyfeirio at y POP.

<u>Opsiwn A</u>		<u>Opsiwn B</u>	
Lleoliad Cynhyrchu 7	50%	Lleoliad Cynhyrchu 7	100%
Lleoliad Cynhyrchu 8	50%	Lleoliad Gwaith/Prosiect Annibynnol	(Llwyddo/Methu)
Cyfanswm	100%	Cyfanswm	100%

Lleoliadau Cynhyrchu E

Credydau: 40

Asesiad: Cynhyrchiad 9 (50%, Opsiwn A neu 100%, Opsiwn B), Cynhyrchiad 10 (50%, Opsiwn A neu 100%, Opsiwn B)

Mae'r myfyriwr yn ymgymryd â rôl flaenllaw mewn tîm sy'n cynhyrchu perfformiad cyhoeddus. Mae'r ddau fodiwl hyn yn cynnwys pedwar cynhyrchiad. Gellir amnewid un o'r cynhyrchiadau (gyda chytundeb aelodau staff craidd) am leoliadau gwaith. Bydd y dyletswyddau'n golygu gweithio gydag amrywiaeth o staff artistig, rheoli a thechnegol, y bydd rhai ohonynt yn weithwyr proffesiynol yn y diwydiant. Bydd y myfyriwr yn mynychu rihyrsals, cyfarfodydd a grwpiau trafod yn ôl y galw cyn cyfnod y cynhyrchiad yn y theatr ac yn ystod amserlen y perfformiadau wedi hynny.

Ar ddechrau pob cyfnod lleoliad bydd y myfyriwr yn llunio Cynnig Amcanion Personol (POP) i fyfyrion ar waith neu brofiad blaenorol a gosod nodau newydd. Wedi cwblhau'r rôl, bydd y myfyriwr yn cynnal Hunanasesiad i werthuso ei berfformiad/pherfformiad gan gyfeirio at y POP.

<u>Opsiwn A</u>		<u>Opsiwn B</u>	
Lleoliad Cynhyrchu 9	50%	Lleoliad Cynhyrchu 9	100%
Lleoliad Cynhyrchu 10	50%	Lleoliad Gwaith/Prosiect Annibynnol	(Llwyddo/Methu)
Cyfanswm	100%	Cyfanswm	100%

Mae'r cwrs Rheoli Llwyfan yn un trwm iawn, yn feddyliol a chorfforol, ac rydym yn chwilio am fyfyrwyr a fydd yn gallu ymdopi â natur ddwys a beichus y cwrs a mynd ymlaen i yrfaedd sefydledig a llwyddiannus ym meysydd rheoli llwyfan a digwyddiadau byw. Bydd y myfyrwyr yn cymryd rhan mewn nifer fawr iawn o ddsbarthiadau, prosiectau a chynhyrchiadau ac yn cael eu cyflwyno i elfennau rheoli llwyfan a theatr dechnegol na fyddent o bosibl wedi eu hystyried yn flaenorol. Rydym angen myfyrwyr sydd â dychymyg, chwilyfrydedd ac ymroddiad a fydd yn gallu ymateb i heriau'r hyfforddiant.

Mae Cefnogaeth Myfyrwyr yn bwysig ac rydym eisiau sicrhau bod ein myfyrwyr yn gweithio'n galed ac yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Os bydd gan fyfyrwr gyflwr iechyd sy'n effeithio ar ei astudiaeth, efallai y gellir gwneud addasiadau rhesymol i'r cwrs. Pan fo cyflwr iechyd neu driniaeth yn codi pryderon am allu'r myfyriwr, efallai na fydd hi'n bosibl gwneud addasiadau i'r cwrs oherwydd iechyd a diogelwch / cyfyngiadau eraill. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gefnogaeth i fyfyrwyr sydd â chyflwr meddygol neu anawsterau dysgu gan yr Adran Gwasanaethau a Phrofiad Myfyrwyr.